RHONDDA CYNON TAF

24 Hydref 2024

**Parthed: Ymgyngoreion yn ymwneud â - Trefniadaeth Ysgolion Statudol - Cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen**

Annwyl Aelodau'r Cabinet,

Rwyf wedi cael cyfarwyddyd gan Bwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant y Cyngor i gyfleu sylwadau'r Aelodau mewn perthynas â **Threfniadaeth Ysgolion Statudol – Cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen**, ac i'r sylwadau gael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod.

Cafodd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant gyfle i weithredu fel ymgynghorai ac fe roddodd ei adborth a'i sylwadau mewn perthynas â'r cynnig yn ystod ei gyfarfod ar 24 Hydref 2024. Cafodd Aelodau drafodaeth adeiladol mewn perthynas â'r adroddiad a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

Mae modd bwrw golwg ar drafodaethau llawn y pwyllgor ar yr eitem hon **yma.**

I grynhoi, trafodwyd y pwyntiau canlynol mewn perthynas â Threfniadaeth Ysgolion Statudol – Cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen.

- Cododd Aelod bryderon am y cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng pan nad oes llawer o le i ehangu Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Roedd yn effro i'r mannau agored cyfyngedig o gwmpas ardaloedd y ddwy ysgol yn y cynnig, a hynny ar gyfer unrhyw ddatblygiadau ysgolion newydd yn y dyfodol, er gwaethaf arwyddion bod Pontypridd wedi'i nodi'n brif ardal ar gyfer ehangu a datblygu yn y CDLl.
- Gofynnodd Aelodau am eglurhad o ran y gwaith cynnal a chadw sydd i'w wneud a'r buddsoddiad diweddar, a gofynnon nhw fod rhagor o fanylion yn cael eu darparu pan fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Cabinet.
- Gofynnodd Aelodau am gadarnhad bod y rhagolygon o ran nifer y disgyblion (wrth edrych ar ddata genedigaethau byw a nifer y disgyblion y cydnabuwyd eu bod yn cael eu monitro bob dydd) wedi cael eu hystyried gyda chydweithwyr yr adran gynllunio o ran twf yn y boblogaeth yn ardal Pontypridd a'r cyffiniau, er gwaethaf arwyddion bod Pontypridd wedi'i nodi'n brif ardal ar gyfer ehangu a datblygu yn y CDLl.
- Gofynnodd Aelodau fod manylion pellach mewn perthynas ag amodau'r farchnad yn cael eu darparu yn yr adroddiad sy'n mynd yn ôl i'r Cabinet.
- Roedd Aelod yn effro i'r ffaith bod pwyslais mawr yn cael ei roi ar ddeilliannau addysgol, gan gydnabod bod rhaid i rieni wneud dewis yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'w plant, a'i bod yn bwysig, fel Pwyllgor Addysg, fod deilliannau addysgol yn flaenoriaeth.
- Gofynnodd Aelodau fod gwaith pellach yn ymdrin â'r modelau a'r cwestiynau am

y model ffedereiddio, yn cael ei gynnwys yn y cynigion sy'n mynd yn ôl i'r Cabinet.

- Awgrymodd Aelod, a oedd wedi cydnabod y penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud gydag unrhyw gynnig trefniadaeth ysgolion, ni waeth beth fo'r sail resymegol, rannu arfer da o achosion blaenorol o uno/cau ysgolion. Byddai hyn yn rhoi hyder i Aelodau a thrigolion lleol o ran llwyddiant achosion blaenorol o aildrefnu ysgolion.
- Mynegodd Aelod bryderon mewn perthynas â chadernid y data yn yr adroddiad, gan nodi bod y fformat yn peri dryswch gyda nifer o setiau data. Aeth ati i gydnabod nad yw'r data a ddarparwyd gan Aelodau lleol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Gofynnwyd bod dadansoddiad cadarn o'r holl ddata yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cabinet.
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd bod ymgyngoreion priodol yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), gan gydnabod y cyfle ar gyfer Trochi yn y Gymraeg, fel y nodir yn yr adroddiad, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.
- Gofynnodd Aelod am eglurhad ar ran y rhieni sy'n dymuno anfon eu plant i YGG Awel Taf i barhau â'u haddysg, a fyddai'r rhai yn y dalgylch yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol.
- Roedd gan Aelod bryderon nad yw Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a gofynnodd beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Gofynnodd hefyd fod hyn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw adroddiad terfynol i'r Cabinet.
- Gofynnodd Aelod, gan gydnabod cymhlethdod yr adroddiadau sydd ger bron yr Aelodau, am y ffigur a nodir ar gyfer plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, h.y. y nifer o blant sy'n mynychu Ysgol Babanod Trallwng sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, ond nodwyd bod dalgylchoedd Ysgol Gynradd Coedpenmaen ac Ysgol Babanod Trallwng yn gorgyffwrdd felly dylid newid y ffigur dan sylw. Gofynnodd yr Aelod fod hyn yn cael ei wneud yn glir yn yr adroddiad terfynol.
- Cododd Aelod bryderon am y problemau posibl i staff o ran parcio ar y safle o ganlyniad i'r cynnig
- Gofynnodd Aelod am eglurhad a oes digon o le ar gyfer nifer y plant cyn oed ysgol yn yr ysgolion sy'n weddill gan nad yw hyn yn glir yn unrhyw un o'r tablau yn yr adroddiad.
- Gofynnodd yr Aelod am eglurhad am yr effaith ddilynol ar frodyr a chwiorydd sydd eisoes yn mynychu Ysgol Gynradd Coedpenmaen, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng yn mynd yn ei flaen.
- Gofynnodd Aelodau am eglurhad o ran capasiti plant Trallwng a fyddai'n dymuno trosglwyddo i Ysgol Afon Wen neu Ysgol Bro Taf o bosibl ac roedden nhw o'r farn y dylid nodi unrhyw bwysau o ran capasiti yn yr adroddiad i'r Cabinet.

Yn gywir



**<u>Christian Hanagan</u>**
**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**